**GWEITHDREFN AGORED**
**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

**I'w ddefnyddio gan staff S4C yn unig**
**Tendr i ddarparu Mynediad i Offer Rheoli/Cyhoeddi Cynnwys Ar-lein**

Enw'r Ymgeisydd:

Dyddiad Gwerthuso: Panel:

| **Archwiliad Cydymffurfiaeth – Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol - Rhan 1**<br><br>**Gwahardd o ganlyniad i fethiant yr Ymgeisydd i gyflwyno Ymateb Tendr sy'n cydymffurfio**<br><br>**(Os atebir "Nac ydy" i unrhyw rai o'r cwestiynau isod, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach, oni bai bod modd i'r Ymgeisydd gynnig cyfiawnhad boddhaol)** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| A yw'r Ymgeisydd wedi cyflwyno'r Ymateb i'r Tendr ar ffurf electronig mewn neges e-bost erbyn 12.00 canol dydd ddydd Mercher 22 Tachwedd 2017? | ☐ | ☐ |
| A yw'r Ymgeisydd wedi darparu'r holl fanylion priodol yn Rhan 1?<br><br>Os yw'r Ymgeisydd yn rhan o Gonsortiwm, nodwch enw'r aelod arweiniol. | ☐<br>Enw'r aelod arweiniol: | ☐ |
| Ydy'r Ymgeisydd wedi hunan-dystio bod ganddo Yswiriant ddigonol yn unol â Rhan 4.1? | ☐ | ☐ |
| Ydy'r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Cydraddoldeb neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.2? | ☐ | ☐ |
| Ydy'r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Amgylcheddol neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.3? | ☐ | ☐ |
| Ydy'r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Iechyd a Diogelwch neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.4? | ☐ | ☐ |
| A yw'r Ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad yn Rhan 5? | ☐ | ☐ |

**GWEITHDREFN AGORED**
**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

| **Archwiliad Cydymffurfiaeth – Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol – Rhan 2**<br><br>**Gwahardd o ganlyniad i sefyllfa bersonol yr Ymgeisydd**<br><br>**(Os atebir "Ydy" i unrhyw rai o'r cwestiynau isod, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach)** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| A yw'r Ymgeisydd wedi ticio bocs "Ydw" wrth ateb Rhannau 2 neu 3? | ☐ Os ydy, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach oni bai bod modd i'r Ymgeisydd wedi dangos ei fod wedi "Hunan-olchi" mewn modd sydd yn dderbyniol i S4C | ☐ |

**GWEITHDREFN AGORED**
**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| Gallu i ddiwallu anghenion S4C gan gynnwys cydweddoldeb â gwasanaethau trydydd parti | Datganiad yn gosod disgrifiad o'r meddalwedd/platfform/offer a sut y caiff anghenion S4C eu diwallu.  Dylai'r Tendrwr osod yn glir sut y bydd yn sicrhau pob elfen angenrheidiol. Dylai'r Tendrwr ddangos gallu'r gwasanaeth i gydweddu ac integreiddio ag elfennau trydydd parti, lle'n berthnasol.<br><br>Gwybodaeth a gafwyd o'r mynediad treialu/demo. | ***Ardderchog (27-35)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn rhagorol ac yn cwrdd â gofynion S4C yn llwyr. Mae'r tendrwr wedi dangos yn effeithiol bod modd integreiddio'r gwasanaeth ag elfennau trydydd parti.*<br><br>***Da (18-26)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn dderbyniol ac yn cwrdd â gofynion S4C. Mae'r tendrwr wedi dangos bod modd integreiddio'r gwasanaeth ag elfennau trydydd parti.*<br><br>***Pryderon (9-17)***<br>*Er bod y gwasanaeth arfaethedig yn dderbyniol, nid oes digon o fanylion yn yr ymateb i'r tendr a/neu nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cwrdd â gofynion S4C yn llwyr. Nid yw'r tendrwr wedi dangos yn effeithiol bod modd integreiddio'r gwasanaeth ag elfennau trydydd parti.* | | **35%** |

**GWEITHDREFN AGORED**
**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | ***Pryderon mawr (0-8)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn achosi pryderon mawr a/neu, nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod modd i'r gwasanaeth gwrdd â gofynion S4C. Nid yw'r tendrwr wedi dangos bod modd integreiddio'r gwasanaeth ag elfennau trydydd parti.* | | |
| Profiad perthnasol, cwsmeriaid cyfredol a hanes y meddalwedd/platfform/ offer | Disgrifiad cynhwysfawr o brofiad perthnasol y Tendrwr o fewn y tair blynedd diwethaf gan gynnwys rhestr o gwsmeriaid presennol y Tendrwr sy'n debyg i S4C. Disgrifiad o hanes y meddalwedd/platfform/offer a'r modd y mae eraill wedi gwneud defnydd ohono. | ***Arbennig (5)***<br>*Mae profiad yr ymgeisydd yn gweddu'n berffaith â gofynion S4C ac nid oes unrhyw faes yn peri gofid.*<br><br>***Da (3-4)***<br>*Mae profiad blaenorol yr ymgeisydd yn cwrdd â gofynion S4C ac nid oes unrhyw faes yn peri gofid.*<br><br>***Pryderon (1-2)***<br>*Nid yw'r profiad blaenorol yn cwrdd â gofynion S4C yn llwyr, mae yna rai pryderon am brofiad perthnasol yr ymgeisydd ond credir y gellir eu rheoli.*<br><br>***Pryder sylweddol (0)*** | | **5%** |

## GWEITHDREFN AGORED
## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Mae pryderon mawr am ddiffyg profiad yr ymgeisydd ac mae'r ymateb yn peri gofid mawr mewn nifer o feysydd nad yw'n dderbyniol.* | | |
| Safon y gwasanaethau cefnogi gan gynnwys cyfathrebu effeithiol gydag S4C a datblygu'r gwasanaeth | Methodoleg y Tendrwr ar gyfer darpariaeth o wasanaeth cefnogi safon uchel a chyfathrebu effeithiol gyda S4C trwy gydol cyfnod y cytundeb. Dylai'r Tendrwr ddangos ei allu i gadw i fyny â datblygiadau yn y diwydiant ac i ddatblygu'r gwasanaeth ar sail parhaus. | ***Ardderchog (9-10)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn arbennig ac mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth gadarn bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu'r gwasanaethau â'r risg lleiaf o berfformiad gwael os byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro hon.*<br><br>***Da (6-8)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn dderbyniol ac mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu'r gwasanaethau ac i gwrdd â disgwyliadau S4C â'r risg lleiaf o berfformiad gwael os byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro hon.*<br><br>***Pryderon (3-5)*** | | **10%** |

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Er bod y dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn dderbyniol, nid oes digon o fanylion yn yr ymateb i'r tendr a/neu nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu gwasanaethau tebyg neu mae yna beth risg o berfformiad gwael os byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro.*<br><br>***Pryder sylweddol (0-2)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn achosi pryderon mawr a/neu, nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu gwasanaethau tebyg ac mae yna risg sylweddol o berfformiad gwael os byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro.* | | |
| Defnyddioldeb a pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio | Disgrifiad o ddefnyddioldeb y gwasanaeth a pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio gan staff a defnyddwyr gweinyddol.<br><br>Gwybodaeth a gafwyd o'r | ***Ardderchog (16-20)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn ardderchog ac yn cwrdd â disgwyliadau S4C yn llwyr.*<br><br>***Da (10-15)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn* | | **20%** |

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | mynediad treialu/demo. | *dderbyniol ac yn cwrdd â gofynion S4C.*<br><br>***Pryderon (5-9)***<br>*Er bod y gwasanaeth arfaethedig yn dderbyniol, mae gan S4C rai pryderon am ddefnyddioldeb y gwasanaeth.*<br><br>***Pryder sylweddol (0-4)***<br>*Mae'r gwasanaeth arfaethedig yn achosi pryderon mawr o ran ei ddefnyddioldeb â pha mor hawdd yw'r gwasanaeth i'w ddefnyddio.* | | |
| Ffi | Manylion cost y gwasanaeth i S4C. Y rhagdybiaethau y mae'r ffi wedi eu seilio arnynt, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y gwasanaeth ac unrhyw elfennau a allai achosi ffioedd uwch. | ***Ardderchog (20-25)***<br>*Mae'r ffi yn fforddiadwy a chystadleuol ac rydym yn hyderus y gellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y gwasanaeth nac unrhyw elfennau a allai achosi ffioedd uwch neu mae'r fath gyfyngiadau neu elfennau yn dderbyniol.*<br><br>***Da (13-19)***<br>*Mae'r ffi yn fforddiadwy a rhesymol ac mae'n debygol y gellir darparu'r gwasanaethau* | | **25%** |

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi. Mae'r cyfyngiadau ac elfennau a allai achosi ffioedd uwch yn dderbyniol.*<br><br>***Pryderon (6-12)***<br>*Mae'r ffi'n fforddiadwy ond rydym yn pryderu na ellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi neu mae'r ffi'n uwch na'r disgwyl ac nid yw'n darparu gwerth ychwanegol am arian i gyfiawnhau ffi uwch. Mae'r cyfyngiadau neu elfennau a allai achosi ffioedd uwch yn uwch na'r disgwyl.*<br><br>***Pryder sylweddol (0-5)***<br>*Nid yw'r ffi'n fforddiadwy ac/neu rydym yn pryderu'n fawr na ellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi. Mae'r cyfyngiadau neu'r elfennau a allai achosi ffioedd uwch yn annerbyniol.* | | |
| Sylwadau ar y cytundeb drafft | Unrhyw sylwadau cyfreithiol sy'n codi o'r Nodiadau Cyfreithiol a'r Cytundeb | ***Ardderchog (5)***<br>*Nid oes unrhyw faterion cytundebol o bryder wedi'u codi.* | | **5%** |

**GWEITHDREFN AGORED**
**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

| **Asesiad o'r Meini Prawf**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Criteria Gwerthuso** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | Drafft a nodir yn Atodiad 1. | ***Da (3-4)***<br>*Mae rhai materion cytundebol o bryder wedi'u codi ond mae'r rhain yn dderbyniol.*<br><br>***Pryderon (1-2)***<br>*Rydym yn pryderu ychydig am y materion cytundebol sydd wedi'u codi ond fe ellir eu rheoli.*<br><br>***Pryder Sylweddol (0)***<br>*Mae gennym bryderon mawr am y materion cytundebol sydd wedi'u codi ac nid ydynt yn dderbyniol ac ni ellir eu rheoli.* | | |
| **Cyfanswm** | | | | **/100** |